

CYN- FYFYRWYR CBCDC

CYLCHLYTHYR
GAEAF
2020



ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

rwcmd.ac.uk/alumni

NEGES GAN Y PRIFATHRO

WEDI MISOEDD HIR MAE'N ANODD CYFLEU CYMAINT O FODDHAD YDOEDD I GWRDD Â CHARFAN NEWYDD O FYFYRWYR AR DDECHRAU TYMOR YR HYDREF, AC I GROESAWU'N ÔL Y MYFYRWYR OEDD YN DYCHWELYD, A'U GWELD YN YMROI'N LLWYR AR UNWAITH I'W HASTUDIAETHAU A BYWYD Y COLEG, WYNEB YN WYNEB AC AR-LEIN. MAE YSBRYD, DYCHYMYG DIATAL A THEIMLAD O DDIBEN CBCDC YN AMLWG!

Er bod Covid-19 yn parhau i gyfyngu ar sawl agwedd ar ein gwaith, mae ein staff wedi gweithio'n ddiwyd i barhau i roi'r cyfleoedd a'r hyfforddiant gorau posibl i'n myfyrwyr dawnus. Mae pob myfyriwr yn dod i mewn i'r Coleg ar gyfer peth gwaith wyneb yn wyneb bob wythnos - o ymarfer unigol i wersi un i un, i ddosbarthiadau a gweithdai mewn grwpiau bach, hyfforddiant ensemble bach a pherfformiadau.

Eto, ynghanol yr holl weithgarwch mae teimlad mawr o dawelwch a chydgyfrifoldeb ymhlith y staff a'r myfyrwyr, a diogelwch pob un ohonom yw'r brif flaenoriaeth. Mae'r cyfyngiadau pellter cymdeithasol presennol yn golygu mai dim ond tua 25% o'r bobl a arferai fod yn yr adeilad ar un pryd sy'n gallu bod yma nawr.

Oherwydd y cyfyngiadau o ran gofod yn ein hadeilad ni - mae'r Coleg wedi cymryd Theatr y Sherman drosodd! Mae'r Sherman ei hun yn dal ar gau felly rydym wedi llogi gofodau rihyrsal a stiwdio fel y gellir cynnal gwaith ein myfyrwyr



Llun gan Kirsten Mcternan

Actio a Cherddoriaeth gan gadw pellter cymdeithasol drwy gydol tymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn.

Gwyddom fod Cynfyfyrwyr CBCDC yn gweithio mewn diwydiannau sydd ymhlith y rhai sydd wedi dioddef fwyaf yn ystod y pandemig, ac rydym eisiau gwneud cymaint ag y gallwn i'ch cefnogi. Mae'r heriau presennol hefyd yn golygu ei bod yn well nag erioed i glywed ychydig o newyddion da am gynnyrch creadigol sy'n dod i'r amlwg, er gwaethaf y cyfnod eithriadol hwn. Hoffwn ddiolch i gymaint ohonoch am gadw mewn cysylltiad, ac am ymateb i'n harolwg diweddar ymhlith Aelodau'r Cynfyfyrwyr. Bydd yr ymatebion yn werthfawr iawn i'n helpu i ddatblygu'r Gymdeithas Cynfyfyrwyr wrth i ni symud ymlaen. Cewch wybod rhagor am hynny yn ein gohebiaeth nesaf!

Mae llygedyn o oleuni i'w weld ym mhen draw'r twnnel, ond gwyddom hefyd y bydd y 6 mis nesaf o leiaf yn rhai anrhagweladwy iawn. Fodd bynnag, mae gen i ffydd yng nghyfuniad llwyddiannus cefnogwyr teyrngar, cyn-fyfyrwyr gwych, staff profiadol, myfyrwyr dawnus ac angerddol CBCDC - rydym yn barod i wynebu'r heriau sydd i ddod!

Hoffwn ddymuno'r gorau i chi dros yr ŵyl a gobeithiaf eich gweld wyneb yn wyneb yn fuan iawn.

Nadolig Llawn!

Yr Athro Helena Gaunt, Prifathro

Helena F. Gaunt

LLWYDDIANNAU MYFYRWYR A GRADDEDIGION

DRAMA

- + Enillodd **Rose Revitt** (MA Cynllunio ar gyfer Perfformio, presennol) Wobr Cynllunydd Gorau yng Ngwobrau Stage Debut 2020 am ei chynlluniau set a gwisgoedd ar gyfer *Dr Korczak's Example* yn Leeds Playhouse.
- + **Sarah Cole** (BA Rheoli Llwyfan, 1993) yw'r ail fenyw yn unig i ennill Gwobr Dechnegol yr Association of British Theatre, ac felly hi yw Technegydd y Flwyddyn 2020.
- + Cyfarwyddodd **Tom Cullen** (BA Actio, 2009) *Pink Wall*. Roedd cast a chriw y ffilm yn cynnwys **Atena Pou, Gwyn Eiddior, Richard Elis, Sarah Ovens, Kyle Lima, a Katharine Mangold** - y cyfan yn raddedigion y Coleg.
- + Erbyn hyn mae **Emily Bates** (MA Cynllunio, 2017) yn cynllunio ar gyfer Opera Brenhinol Denmarc.
- + **Catrin Defis** (BA Rheoli Llwyfan a Chynllunio Theatr, 1989, ac MA Rheolaeth yn y Celfyddydau, 2012) yw Cynhyrhydd *Bang*, cyfres ddrama drosedd teledu ddwyieithog sy'n cynnwys 11 o raddedigion actio CBCDC.
- + Yn 2019, gwnaed **Rhiannon Boyle** (BA Actio, 1999) yn Awdur Preswyl cyntaf Cymru, gyda chefnogaeth y BBC a National Theatre Wales.
- + Gweithiodd dros 30 o gyn-fyfywrwyr CBCDC ar yr gyfres ddrama deledu *His Dark Materials* yn yr adranau lleoliadau, cynllunio a golygfeydd.

CERDDORIAETH

- + Mae **Conal Bembridge Sayers** (PGDip mewn Astudiaethau Répétiteur, 2018) wedi ymuno ag Opera Ballet Vlaanderen, Antwerp, fel un o'i répétiteurs llawn amser.
- + Cyrhaeddodd un o'n telynorion Conservatoire Iau, **Huw Boucher**, derbynydd Gwobr Gareth Jones, rownd derfynol y llynynnau Cerddor Ifanc BBC 2020, un o'r ychydig delynorion yn hanes y gystadleuaeth i gyrraedd y cam terfynol hwn.
- + Canodd **Trystan Llŷr Griffiths** (MA Opera, 2014) rôl Don Ottavio yn *Don Giovanni* ar gyfer Garsington Opera yn ystod haf 2019 a chanodd **Emyr Jones** (MA Opera, 2016) rôl Colline yng nghynhyrchiad Opera North o *La Bohème*



O'r top: Blaise Malaba mewn ymarfer yn y Tŷ Opera Brenhinol; Huw Boucher yn rownd derfynol y llynynnau Cerddor Ifanc BBC 2020, llun gan BBC; Rhiannon Boyle oedd Awdur Preswyl Cymru 2019-2020

- yr hydref canlynol. Canodd **Christine Byrne** (Diploma Ôl-radd Llais, 2019) rôl Ninetta yn *Sicilian Vespers* y WNO ym mis Chwefror 2020.
- + Ym mis Mehefin 2019, perfformiodd **Blaise Malaba** (MA Perfformio Opera, 2018) am y tro cyntaf gyda'r Tŷ Opera Brenhinol yn Covent Garden ac ym mis Medi 2020 daeth yn un o dri Artist Ifanc Jette Parker, a ddewiswyd o blith 400 o ymgeiswyr o dros 25 o wledydd.
- + Cafodd **Jasper Dommert** (BMus Cyfansoddi, presennol) ei enwebu ar gyfer un o wobrau cerddoriaeth uchaf eu bri yn y DU - Gwobr Ivor Novello - fel rhan o Wobrau Cyfansoddwr The Ivors 2020, am ddarn a ysgrifennodd ar gyfer prosiect Cyfansoddi Cymru 2020 Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.
- + Yn ddiweddar gwnaed **Toks Dada** (BMus Fiola, 2013 ac MA Rheolaeth yn y Celfyddydau, 2015) yn Bennaeth Cerddoriaeth Glasurol yng Nghanolfan Southbank.

ARDDANGOSFA: CERFLUNIAU PAPUR



MYFYRIWR CYNLLUNIO AR GYFER PERFFORMIO YN FY MLWYDDYN GYNTAF YN CBCDC YDW I. EIN PROSIECT CYNTAF OEDD CREU GOSODIAD CERFLUN PAPUR YNG NGHYNTEDD DEHEUOL ORIEL LINBURY YMA YN Y COLEG.

Oherwydd cyfyngiadau COVID nid oedd modd i ni weithio mewn grwpiau ar brosiect graddfa fawr fel y mae'r blynyddoedd blaenorol wedi'i wneud, ac felly roedd yn rhaid i ni greu aderyn unigol. Roeddwn i'n un o 8 a gafodd y dasg o greu Gwyddau'r Eira, tra bod eraill yn y flwyddyn gyntaf yn creu Piod, a'r myfyrwyr gradd Meistr yn creu Crehyrod.

Roedd gallu gwneud gwaith ymarferol yn y Coleg yn brofiad gwych, yn arbennig gan ein bod yn cael ein haddysgu gan y tiwtor bythol frwdfrydig Chris Marfleet. Roedd yn gyflwyniad ardderchog i'r cwrs Cynllunio ar gyfer Perfformio, a rhoddodd fewnwelediad da i mi i'r hyn y gellid ei wneud gyda dim ond papur a cherdyn.

Roedd gorfod creu aderyn oedd yn edrych yn realistig yn gryn her, yn arbennig pan oeddech yn ceisio osgoi unrhyw nodweddion cartwnaidd.

Llun gan Kirsten Mcternan



"Y PROSIECT YN Y FLWYDDYN NEWYDD FYDD GWEITHIO AR Y BROSES GYNLLUNIO GYFAN AR GYFER DRAMA O'R ENW 'SHAKESPEARE IN HOLLYWOOD' GAN KEN LUDWIG"

Roedd gwneud pob pluen unigol yn waith llafurus iawn, ond roedd y canlyniad yn werth yr holl oriau hir.

Yn dilyn cyfnod o addysgu ar-lein am nifer o wythnosau, rwy'n edrych ymlaen at ddychwelyd i'r Coleg ar gyfer ein prosiect ymarferol nesaf. Y prosiect yn y flwyddyn newydd fydd gweithio ar y broses gynllunio gyfan ar gyfer drama o'r enw 'Shakespeare in Hollywood' gan Ken Ludwig. Rydw i hefyd yn chwilio am gyfleoedd i ganu gyda myfyrwyr eraill gan fy mod yn gerddor brwd!

George Haylock, myfyriwr cynllunio





SPOTLIGHT: TIANYI LU



TIANYI LU YN ENNILL CYSTADLEUAETH ARWEINWYR RHYNGWLADOL SYR GEORG SOLTI.

Astudiodd Tianyi ar gwrs arwain cerddorfaol ôl-radd CBCDC a graddiodd gyda rhagoriaeth yn 2015. Gan arwain y ffordd i fenywod ym maes, llynedd daeth Tianyi yn Arweinydd Preswyl Benywaidd cyntaf WNO a'r mis diwethaf hi oedd y fenyw gyntaf i dderbyn y Wobr Gyntaf yng Nghystadleuaeth Arwain Ryngwladol Guido Cantelli yn yr Eidal. Enillodd hefyd y Dyfarniad Ieuencid a Gwobr y Gerddorfa, a ddewiswyd gan aelodau Cerddorfa Teatro Regio, yn y gystadleuaeth.

'Dechreuodd Tianyi ar antur dewr, yn teithio ar draws y byd o Seland Newydd er mwyn astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru,' meddai'r Pennaeth Perfformio Cerddoriaeth Kevin Price. 'Mae ei dawn gerddorol gynhenid wedi'i fframio gan wyleidd-dra naturiol a pharch, ac o'r dechrau denodd hyn staff a myfyrwyr CBCDC fel maged cerddorol ati, gan greu prosiectau creadigol unigol yn gyflym. Mae'n bleser gweld cyfuniad hyfryd o ddoniau Tianyi yn cael eu

"MAE EI DAWN
GERDDOROL GYNHENID
WEDI'I FFRAMIO GAN
WYLEIDD-DRA
NATURIOL A PHARCH,
AC O'R DECHRAU
DENODD HYN STAFF
A MYFYRWYR
CBCDC FEL MAGNED
GERDDOROL ATI..."

cydnabod ar y llwyfan byd-eang, a pharhau ein gwaith gyda hi fel cydweithiwr gwerthfawr.'

Meddai Tianyi 'Mae hon wedi bod yn flwyddyn mor heriol i gymaint o bobl ledled y byd, ac i minnau hefyd, ond rwy'n gwbl argyhoeddedig bod gan bob rhwystr a her y grym i'n trawsnewid a'n cryfhau er gwell. Hoffwn anfon fy nghariad a'm hanogaeth i'r holl fyfyrwyr sydd wedi gorfod, ac sy'n dal i wynebu heriau a chaledi sydd ar hyn o bryd yn ymddangos fel petaent yn anoresgynnol. Nid oes yr un dyn na menyw ar ei ben ei hun - rydym yn gynnwys holl arweiniad, cefnogaeth ac anogaeth eneidiau di-ri sydd wedi dyrchafu, ysbrydoli a chyffwrdd â'n bywydau. Rwy'n hynod ddiolchgar i staff a myfyrwyr CBCDC sydd wedi bod yn rym hollbwysig yn fy natblygiad dros y blynyddoedd, ac yn arbennig fy athro, David Jones.'

Tianyi Lu, llun gan Antony Potts





CBCDC CREADIGOL



DOES DIM AMHEUAETH, NI FU EI DEBYG - OND ROEDD YN DIPYN O DYMOR!!

Roedd yn rhaid, wrth gwrs, ailfeddwl am ac ailwampio cymaint o bethau, ond rydym yn mwynhau herio ein creadigrwydd yn y Coleg ac fel y gwyddoch chi gyd - mae'n rhaid i sioe CBCDC fynd yn ei blaen. Ers yr haf rydym wedi cynhyrchu saith opera, heb sôn am gyngherddau gan gadw pellter cymdeithasol, llif cyson o ddsbarthiadau meistr ac, yn y cyfnod cyn y Nadolig, PUM cynhyrchiad drama.

Mae rhannu ein gwaith gyda chynulleidfaoedd yn hollbwysig ac mae ein plattform ffrydio newydd yn golygu ein bod yn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd ar-lein ledled y byd. Ers mis Mawrth rydym wedi ffrydio 18 o berfformiadau byw, gyda dros 40,000 wedi'u gwyllo gan gyrraedd ymhell dros 8,000 yn ystod y mis diwethaf. Ac nid ydym wedi crybwyll dechrau'r tymor gyda chyfansoddiad i groesawu ein 24 o bianos newydd Steinway...

Dyma rai o'r nifer o uchafbwyntiau:

AMSERJAZZ

Mae AmserJazzTime wedi gwneud ffrindiau newydd o bedwar ban byd gyda gwylwyr rheolaidd yn dod o fannau'n mor bell â'r Alban, Efrog Newydd a Moscow, ac erbyn hyn yn cael eu galw'n **#JazzGang**. Rydym yn edrych ymlaen at rannu mwy o jazz gyda nhw dros y flwyddyn nesaf.

Mae dal amser i weld perfformiadau arbennig y Nadolig, sef sesiwn olaf y tymor, ar ein sianel YouTube **RWCMDTV**.

Rydym yn ddiolchgar iawn ein bod fel lleoliad hyfforddi yn dal i allu creu perfformiadau pan fo'r holl leoliadau eraill yng Nghymru yn dal yn dywyll, a bod gennym ganiatâd arbennig gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny.

Mae hi mor bwysig bod ein myfyrwyr yn gallu parhau i greu cynrychiadau ac ymgysylltu ag ystod mor amrywiol o artistiaid gwadd a pherfformiadau byw - ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr holl waith sy'n digwydd ar y llwyfan a chefn llwyfan i sicrhau y gall hyn ddigwydd.



O'r top: Cabaret Nadolig, llun gan Kirsten McTernan; Opera Martin Constantine; Dosbarth Meistr Zoe Rahman, llun gan Kirsten McTernan



OPERA

Roedd yr operâu un act *Venus and Adonis* a *Dido and Aeneas*, a gyfarwyddwyd gan y myfyrwyr MA cyfarwyddo Fleur Snow a Madeleine Brooks, yn ddwy o blith saith opera a berfformiwyd gennym ers mis Awst.

Yn arwrol llwyddasant i ddod â'r fenter dan arweiniad y myfyrwyr i'r llwyfan gyda dros 25 o gantorion, 10 offerynnwr a 10 aelod o dîm creadigol ac adrannau o bob rhan o'r Coleg, tra'u bod hefyd yn brwydro gyda pandemig byd-eang a chlo bach cenedlaethol: **#CydweithrediadCBCDC**.

STEINWAY

Yn ôl ym mis Hydref, gyda'n 24 piano Steinway newydd sbon yn ymgartrefu'n braf, gwnaethom barhau gyda'n dathliad o'r allweddellau gyda

CYLCHLYTHYR CYN-FYFYRWYR



Phenwythnos Mawr y Coleg. Roedd uchafbwyntiau'n cynnwys dosbarthiadau meistr a pherfformiadau yn Neuadd Dora ar y Piano Cyngerdd newydd, gyda'r pianydd jazz Zoe Rahman, a'r byd-enwog Peter Donohoe.

#FILMFESTCBCDC

Gan ymateb i'r her o gyflwyno perfformiadau drama'n ddiogel i'n cynulleidfaoedd gwnaethom lansio ein #FilmFestCBCDC cyntaf un - y gellir ei weld nawr am ddim ar-lein.

Bu Cwmni Richard Burton, sef ein hactorion, cynllunwyr a rheolwyr llwyfan blwyddyn olaf, yn gweithio gyda chriw ffilmio proffesiynol i greu tair ffilm fer, wedi'u sgriptio gan awduron blaenllaw, Athro Cadair Rhyngwladol Hodge mewn Drama Simon Stephens, Moira Buffini a raddiodd o CBCDC, a Simon Longman a bu cydweithio gyda myfyrwyr cyfansoddi i greu'r traciau sain ar gyfer y ffilmiau.

#MEWNCAMERA

Yn fuan wedi hynny cynhaliwyd ein tymor #MewnCamera cyntaf. Daethpwyd â phum drama, y gall cynulleidfaoedd weld rhai ohonynt ar-lein, ynghyd gan dîm o actorion, rheolwyr llwyfan, cynllunwyr, artistiaid llwyfan, adeiladwyr a chynllunwyr gwisgoedd sy'n fyfyrwyr.

Mae'r cyfan wedi'u cefnogi a'u goruchwyllo gan dîm o staff sydd wedi ymrwymo i ganiatáu i'r myfyrwyr gael profiad real, hyd yn oed gyda chynulleidfaoedd gwadd bach.

CYNGERDD NADOLIG YSGOLION

Ni wnaeth y Grinch Covid ddwyn y Nadolig ar gyfer plant ffodus rhai o ysgolion cynradd Cymru, a gafodd y cyfle i fwynhau cyngerdd Nadolig hyd

"ERS MIS MAWRTH RYDYM WEDI FFRYDIO 18 O BERFFORMIADAU BYW, GYDA DROS 40,000 WEDI'U GWYLIO GAN GYRRAEDD YMHELL DROS 8,000 YN YSTOD Y MIS DIWETHAF."

yn oed pan oeddent yn ynysu. Fel rhan o'u modiwl sgiliau addysgu, bydd ein myfyrwyr jazz trydedd flwyddyn fel arfer yn dod ynghyd i fynd â'u Jazz Nadolig i ysgolion, gan gyflwyno plant i gerddoriaeth drwy berfformiad, rhyngweithio ac, yn hollbwysig, hwyl.

Gan eu bod yn benderfynol i beidio gadael i Covid eu trechu, eleni gwnaethant recordio'r sesiwn yn ein cyntedd Nadoligaidd a gall ysgolion o Gymru wneud cais i'w wyllo drwy eu Gwasanaethau Cerddoriaeth - felly gall plant gyd-chwarae gyda'r cyngherddau Nadolig yn ddiogel yn eu swigod a'u hystafelloedd dosbarth.

CABARET NADOLIG

Ni fyddai'r Nadolig yn gyflawn heb ein Cabaret Nadolig Theatr Gerddorol blynyddol, boed yn gyfnod clo neu beidio! Llongyfarchiadau i bawb a weithiodd mor galed i gyflawni hyn: canu gan gadw pellter, newid meicroffonau wedi pob cân, hylif diheintio ar y llwyfan a masgiau disglair i bawb!

Gallwch ddarllen stori CBCDCCreadigol yn llawn yma: <https://blog.rwcmd.ac.uk/2020/12/17/rwcmdcreative-celebrates-christmas-nadolig-llawen/>

Isod i'r chwith: Twelfth Night Remembered, wedi'i gyfarwyddo gan Jonathan Munby, llun gan Kirsten McTernan; Isod i'r dde: Gŵyl Ffilm Fer





Uzo Iwobi, Athro Cadair Rhyngwladol Hodge mewn Amrywiaeth CBCDC, llun gan Kirsten Mcternan

"DYWEDODD EIN HATHRO CADAIR RHYNGWLADOL MEWN AMRYWIAETH UZO IWOB I YN NIGWYDDIAD LANSIO HANES POBL DDUON CYMRU 365, BOD HON YN SIWRNAI YR YDYM ARNI GYDA'N GILYDD."

CBCDC YN HYBU CYDRADDOLDEB STRATEGOL



RYDYM AM I CBCDC FOD YN OFOD I BAWB, CYMUNED SY'N FFYNNU AR BARCH AC YN DATHLU GWAHANIAETH.

Er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni hyn, y tymor hwn gwnaethom lansio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol pum mlynedd, wedi'i gysylltu i Gynllun Cydraddoldeb blynyddol, er mwyn egluro ein hagwedd tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig.

Tynnodd ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys sylw amlwg at realiti sydd wedi bodoli yn ein sefydliad. Felly ochr yn ochr â'r cynlluniau trawsfwaol hyn rydym wedi trosi ein hamcanion cydraddoldeb yn Gynllun Gwrth-hiliaeth sy'n dangos sut y byddwn yn cymhwyso ein huchelgais ar gyfer nodwedd

warchoddedig hil a chreu'r math o brofiad Coleg cynhwysol y mae pawb ohonom am ei rannu.

Dyweddodd ein Hathro Cadair Rhyngwladol mewn Amrywiaeth Uzo Iwobi yn nigwyddiad lansio Hanes Pobl Dduon Cymru 365, bod hon yn siwrnai yr ydym arni gyda'n gilydd. Gwyddom nad ydym wedi cyrraedd eto, ond rydym yn gwranddo ac yn dysgu wrth i ni fynd ac mae'n wych cael cefnogaeth drwy'r Coleg cyfan er mwyn gwneud hyn yn iawn. Mae'n daith heriol, ond mae dysgu gyda'n gilydd yn werthfawr iawn ar nifer o lefelau. Diolch i bawb sy'n gweithio gyda ni ar hyn.

Os hoffech ddarllen Amcanion Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Gwrth-hiliaeth a Datganiad Parch CBCDC ewch i'n gwefan www.rwcmd.ac.uk





CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

Mae llawer o fanteision ymuno â Chymdeithas y Cynfyfyrwyr. Yn ogystal â'ch cynorthwyo i ailgysylltu â'ch cyfoedion, rydym y cynnig ystod o wasanaethau yn cynnwys aelodaeth Llyfrgell gyda disgownt am hyd at 3 mlynedd wedi graddio, disgowntiau yn y swyddfa docynnau ac ar ofodau rihysio, disgowntiau aelodaeth broffesiynol.

Graddiodd Dosbarth 2020 mewn cyfnod rhyfeddol o anodd. Mae gan ein cymuned cyn-fyfyrwyr sgiliau a phrofiadau proffesiynol a allai fod yn werthfawr iawn i'n cyn-fyfyrwyr mwyaf diweddar. Oes gennych chi rywbeth i'w gynnig i'ch cyd gyn-fyfyrwyr? Ydych chi'n chwilio am gefnogaeth? E-bostiwch alumni@rwcmd.ac.uk er mwyn sgwrsio am sut y gallwn helpu.

**HELPWCH NI I AILGYSYLLTU Â
CHYNFYFYRWYR ERAILL DRWY
RANNU GWYBODAETH AM Y
GYMDEITHAS Gyda NHW:
RWCMD.AC.UK/ALUMNI**

Chanae Curtis yn *The Marriage of Figaro*,
llun gan Robert Workman

YMGYRCH CALEDI

**MAE LLAWER O'N MYFYRWYR
YN WYNEBU CALEDI ARIANNOL
AC ANAWSTERAU YMARFEROL
GWIRIONEDDOL OHERWYDD Y
SEFYLLFA CORONAFEIRWS.**

Rydym yn gwneud cymaint ag y gallwn, gyda chyllideb ac adnoddau cyfyngedig, i ddarparu cefnogaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Yn ystod yr haf lansiodd y Coleg Apêl Arbennig i gefnogi'r myfyrwyr hynny yr effeithir arnynt fwyaf gan y pandemig Covid-19 ac rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r rheini sydd wedi ein helpu i dyfu'r gronfa hon. Diolch.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth

Ymaelodwch i gefnogi profiadau
hyfforddiant a chyfleoedd
performio myfyrwyr



I gael rhagor o wybodaeth am ymuno â CYSWLLT
ewch i WWW.RWCMD.AC.UK/CY/CEFNOGWCH-NI/CYSWLLT
neu drwy gysylltu â CONNECT@RWCMD.AC.UK



Cofrestrwyd gyda'r
**FUNDRAISING
REGULATOR**
RHEOLEIDIWR CODI ARIAN

ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

ETIFEDDIAETH

"DRWY GYNNWYS FY SODDGRWTH,
'HOTCH', FEL RHODD YN FY EWYLLYS
A SEFYDLU YSGOLORIAETH
SODDGRWTH, RWYF WEDI DIOGELU
DYFODOL I 'HOTCH' YN OGYSTAL
AG ARIAN I ALLUOGI MYFYRWYR
DAWNUS Y DYFODOL I BARHAU Â'U
HASTUDIAETHAU CERDDOROL.
NI ALLWN OFYN AM FWY."

ELISABETH HOTCHKISS, CYMYNNWR

I sgwrsio gyda rhywun am
gefnogi myfyrwyr CBCDC
drwy adael rhodd yn eich
ewylllys, cysylltwch â:

SARA WEST
Sara.west@rwcmd.ac.uk neu
MARIE WOOD
Marie.wood@rwcmd.ac.uk



Cofrestrwyd gyda'r
**FUNDRAISING
REGULATOR**
RHEOLEIDIWR CODI ARIAN